

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO ARCHWILIAD O'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

CANLLAWIAU AR GYFER CYFRANOGWYR

1. Cyflwyniad

- 1.1. Paratowyd y Canllawiau hyn i gynorthwyo'r unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n dymuno cymryd rhan yn yr Archwiliad i gadernid Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau Drafft Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2021-2031, (y 'Cynllun'). Mae paratoi cynllun datblygu lleol yn un o ofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
- 1.2. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adnau am gyfnod o wyth wythnos a ddaeth i ben ar 1 Mehefin 2018, yn unol â Rheoliad 17 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Cynhaliodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yr 'Awdurdod Parc Cenedlaethol') ymgynghoriad pellach am gyfnod o wyth wythnos ar ei Newidiadau Ffocws arfaethedig, a ddaeth i ben ar 15 Chwefror 2019.
- 1.3. Roedd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau cyn cyflwyno'r Cynllun i'w Archwilio, ac mae Adroddiad yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar yr Ymgynghori yn crynhoi sylwedd y sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'r sylwadau hynny. Anfonwyd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriadau ar y Newidiadau Ffocws yn uniongyrchol at yr Arolygydd i'w hystyried.
- 1.4. Dim ond y rhai a gyflwynodd sylwadau ar unrhyw un o'r ymgynghoriadau a nodir yn 1.2 uchod fydd yn rhan o broses yr archwiliad; a dim ond y rhai sy'n ystyried nad yw'r Cynllun yn gadarn ac sydd am weld newidiadau i wneud y Cynllun yn gadarn sydd â'r hawl i gymryd rhan yn sesiynau'r gwrandawriad. Nid oes angen i'r rhai sy'n cefnogi neu sydd ond yn gwneud sylwadau ar y Cynllun, gymryd rhan yn y gwrandawriad.
- 1.5. Mae'n bwysig bod pawb sy'n dymuno bod yn rhan o sesiynau gwrandawriad yr Archwiliad yn mynychu'r Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad.

2. Yr Arolygydd a'r Swyddog Rhaglen

- 2.1. Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi penodi **Nicola Gulley** MA MRTPI (yr 'Arolygydd') i gynnal yr Archwiliad i asesu cadernid y Cynllun.
- 2.2. Swyddog Rhaglen yr Archwiliad yw **Caroline Llewellyn**. Mae hi'n gweithio yn annibynnol ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a bydd yn gweithio dan gyfarwyddyd yr Arolygydd. Mae hi'n gyfrifol am drefnu rhaglen y gwrandawriadau, cynnal Llyfrgell yr Archwiliad, cofnodi a chyhoeddi pob deunydd a dderbynnir, a chynorthwyo'r Arolygydd gyda materion gweithdrefnol a gweinyddol. Bydd Caroline yn rhoi cyngor ar

unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r rhaglen a'r gweithdrefnau. Dylai unrhyw faterion y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol neu gyfranogwyr eraill am eu codi gyda'r Arolygydd gael eu hanfon at y Swyddog Rhaglen, a gorau oll os gwneir hynny drwy'r e-bost. Gellir cysylltu â hi dros y ffôn ar 07773932339 (ffôn symudol) neu drwy'r e-bost yn swyddogrhaglen@arfordirpenfro.org.uk

3. Diben yr Archwiliad

- 3.1. Diben yr Archwiliad yw archwilio cadernid y Cynllun. Mae'n bwysig nodi bod yr "Archwiliad" yn cwmpasu'r holl broses o archwilio'r Cynllun, o'r adeg y cadarnhawyd cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru i'r adeg y derbyniodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Adroddiad yr Arolygydd.
- 3.2. Rôl yr Arolygydd yw ystyried a yw'r Cynllun yn bodloni gofynion Adrannau 62-64 Deddf 2004 a'r rheoliadau cysylltiedig, ac a yw'n cydymffurfio â'r profion cadernid a nodir ym mharagraffau 8.2.1.2 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (2015). Mae tri prawf cadernid: a yw'r Cynllun yn gyson â dogfennau perthnasol eraill; a yw'r Cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth; ac a yw'r Cynllun yn gynllun y gellir ei gyflawni ac yn gynllun effeithiol. Dylai'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ddibynnu ar dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r Cynllun i ddangos ei fod yn gadarn. Rhaid i'r rhai sy'n ceisio newidiadau i'r Cynllun ddangos pam nad yw'r ddogfen yn gadarn, a dangos sut fyddai'r newidiadau a awgrymir ganddynt yn gwneud y ddogfen yn gadarn.
- 3.3. Man cychwyn yr Archwiliad yw archwilio a yw'r Cynllun a gyflwynwyd yn gadarn. Wrth archwilio cadernid, rhaid i'r Arolygydd ystyried y sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun a gyflwynwyd, ond dim ond i'r graddau y maent yn ymwneud â'r profion cadernid. Nid yw'n ofynnol i'r Arolygydd benderfynu ac adrodd ar bob pwynt a wneir ym mhob gwrthwynebiad, ond defnyddio'r sylwadau fel man cychwyn wrth ystyried a yw'r Cynllun yn gadarn.
- 3.4. Hefyd rhaid i'r Arolygydd arfer ei dyletswyddau o dan Adran 39 o Ddeddf 2004 gyda'r amcan o gyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy. Ar ddiwedd y broses Archwilio bydd yr Arolygydd yn llunio adroddiad ymrwymol sy'n cynnwys argymhellion a'r rhesymau dros yr argymhellion.
- 3.5. Bwriedir i sesiynau gwrandawriad yr Archwiliad fod yn broses holgar o dan gyfarwyddyd yr Arolygydd, yn hytrach na'r dull blaenorol mwy gwrthwynebol rhwng yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r gwrthwynebwyr yn yr ymchwiliad ar y cynllun lleol/cynllun datblygu unedol. Ar y cyfan, cynhelir y broses o archwilio cadernid y Cynllun fel cyfres o sesiynau o gwmpas y bwrdd dan arweiniad yr Arolygydd, i fynd i'r afael â phynciau neu faterion penodol, yn hytrach na'r sylwadau unigol. Mae'r pynciau a glustnodir i'w trafod yn codi o'r cwestiynau ynghylch cadernid y Cynllun a godwyd gan y sylwadau neu a glustnodwyd gan yr Arolygydd.
- 3.6. Ni fydd polisiâu cenedlaethol fel y cyfryw yn cael eu trafod, ond bydd yr Archwiliad yn ystyried eu defnydd a'u goblygiadau lle mae'r cyfryw faterion yn codi o'r polisiâu a'r cynigion penodol o fewn y Cynllun. Drwy

gydol sesiynau'r gwrandawriad y ffocws fydd a yw'r CDLI a gyflwynwyd yn gadarn. Nid diben yr Archwiliad yw argymhell newidiadau i Gynllun sy'n gadarn er mwyn ei wella o ran agweddau eraill.

3.7. Ar ddiwedd yr Archwiliad bydd yr Arolygydd yn cyflwyno'r Adroddiad i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol gyda chasgliadau ac argymhellion ar y camau gweithredu neu'r newidiadau sydd eu hangen o ran cadernid y Cynllun. Mae'r argymhellion hyn yn rhwymol ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a rhaid gwneud unrhyw addasiad a argymhellir i'r Cynllun cyn i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ei fabwysiadu. Nodir isod fframwaith y weithdrefn o gynnal yr Archwiliad:

- Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 2, Llywodraeth Cymru, 2015.
- Rhan 6, Adran 62-72 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.
- Archwiliadau Cynllun Datblygu Lleol - Canllawiau ar y Weithdrefn, Arolygiaeth Gynllunio Cymru, 2015.

3.8. Dylai cyfranogwyr ymglyfarwyddo fel y bo'n briodol â'r rhannau perthnasol o'r dogfennau uchod. Mae'r rhan fwyaf o'r canllawiau ar weithdrefnau wedi'u nodi yn y Llawlyfr CDLI a chanllawiau'r Arolygiaeth Gynllunio ar y weithdrefn. Mae'r dogfennau hyn a'r dogfennau eraill perthnasol ar bolisiau a chanllawiau cynllunio ar gael i'w gweld/lawrlwytho o'r adran Dogfennau Craidd ar Wefan yr Archwiliad.

4. Cyfarfod Cyn Gwrandawriad

4.1. Cynhelir y Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad **ddydd Mawrth, 7 Mai 2019** am **11:00** a hynny yn Neuadd Pater, Stryd Dimond, Doc Penfro, SA72 6DD fel y nodir ar dudalen flaen y ddogfen hon. Diben y Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad yw egluro a thrafod materion gweithdrefnol a gweinyddol sy'n ymwneud â rheoli'r Archwiliad, gan gynnwys Rhaglen y Gwrandawriadau, y materion i'w harchwilio a chwestiynau cysylltiedig, trefn cynnal y gwrandawriad a'r cyfranogwyr, y dulliau o ymdrin â sylwadau, yr amserlen ar gyfer cyflwyno unrhyw ddeunydd ychwanegol all fod yn ofynnol (gan gynnwys datganiadau gwrandawriadau), ac unrhyw faterion perthnasol eraill. **Ni fydd cynnwys a rhinweddau'r Cynllun a'r sylwadau yn cael eu trafod yn y cyfarfod hwn, er y gall yr Arolygydd glustnodi materion neu bynciau y mae o'r farn bod angen deunydd ychwanegol arni i'w helpu i ystyried cadernid agwedd benodol.**

4.2. Yn y Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad bydd yr Arolygydd yn gofyn cyfres o gwestiynau gweithdrefnol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i gadarnhau bod y Cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r gweithdrefnau statudol o dan Adran 64(5)(a) Deddf 2004 a'r rheoliadau cysylltiedig, a bod y Cynllun yn cael ei ategu gan Arfarniad o Gynaliadwyedd. Byddant hefyd yn egluro'r sefyllfa o ran y Cynllun Cynnwys Cymunedau a'r Cytundeb Cyflawni. Mae'r holl ddogfennau perthnasol ar gael ar wefan yr Archwiliad (Dogfennau Craidd).

- 4.3. Mae Agenda'r Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad wedi'i chynnwys ar ddiwedd y nodiadau hyn fel Atodiad B. Bydd Nodyn o'r Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad, Rhaglen Ddrafft Sesiynau'r Gwrandawriad, a Materion a Phynciau'r Arolygydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Archwiliad a'u dosbarthu i'r cyfranogwyr yn fuan ar ôl y Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad.
- 4.4. Bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn hysbysebu dyddiad y Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad gan roi o leiaf 4 wythnos o rybudd.

5. Y Sylwadau a dderbyniwyd ar y Cynllun

- 5.1 O dan Reoliad 22(2)(iv) o'r Rheoliadau CDLI, mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi cadarnhau, mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau a ddaeth i ben ar 1 Mehefin 2018, bod 265 o sylwadau a wnaed yn briodol wedi dod i law oddi wrth 105 o wahanol ymatebwyr.
- 5.2 Hefyd mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi cadarnhau y derbyniwyd 26 o sylwadau gan 15 o gyflwynwyr sylwadau i'r ymgynghoriad ar y Newidiadau Ffocws a ddaeth i ben ar 15 Chwefror 2019.

6. Dulliau o ystyried sylwadau

- 6.1 Mae dwy brif ffordd y bydd yr Arolygydd yn ystyried y sylwadau a wnaed ar y Cynllun:
 - **Sylwadau ysgrifenedig** : Yn seiliedig ar y sylwadau a wnaed yn wreiddiol ac ymateb yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'r materion a godwyd. Gall yr Arolygydd hefyd geisio gwybodaeth ychwanegol fel eglurhad. Caiff y rhan fwyaf o'r sylwadau eu hystyried gan y dull hwn. Ni chaiff sylwadau ysgrifenedig eu trafod yn y gwrandawriadau ac nid oes angen mynychu sesiynau'r gwrandawriad.
 - **Sylwadau llafar** : Lle mae cyflwynwyr sylwadau wedi clustnodi eu bod yn dymuno cael gwrandawriad llafar, ymdrinnir â'r materion perthnasol yn y sylwadau mewn sesiwn gwrandawriad wedi'i raglennu o'r Archwiliad, lle mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a chyfranogwyr eraill yn trafod y prif bwyntiau ar y materion allweddol a glustnodwyd gan yr Arolygydd mewn trafodaeth strwythuredig sy'n seiliedig ar wybodaeth, dan gyfarwyddyd yr Arolygydd.

Rhoddir yr un pwysau i'r ddau ddull, a bydd yr Arolygydd yn rhoi'r un sylw i'r farn a roddir ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Safleoedd Amgen

- 6.2 Dylai'r strategaeth, y polisiau a'r dyraniadau mewn CDLI fod yn realistig ac yn briodol ar ôl ystyried dewisiadau perthnasol, a dylent fod yn seiliedig ar sail tystiolaeth gadarn.
- 6.3 Bydd yr Arolygydd yn cychwyn o'r safbwynt bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi cyflwyno strategaeth, polisiau a dyraniadau sydd, ym

marn yr Awdurdod, yn gadarn. Ni fydd yr Arolygydd yn edrych y tu hwnt i strategaeth, polisiâu a dyraniadau'r Cynllun oni bai ei bod yn dod i'r casgliad fel arall.

- 6.4 Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar asesu a oes digon o safleoedd wedi'u dyrannu y gellir eu cyflawni i ddiwallu'r angen a glustnodwyd. Gall hyn olygu edrych ar gadernid safleoedd unigol a ddyrannwyd. Caniateir i hyrwyddwyr safleoedd amgen arfer eu hawl i gael eu clywed a rhoi dadleuon ar y materion hyn ond nid i hyrwyddo rhinweddau eu safleoedd eu hunain.
- 6.5 Nid yw'n ofynnol i'r Arolygydd adrodd ar bob pwynt ac nid yw'n ofynnol iddi adrodd ar safleoedd amgen unigol. Dim ond os daw i'r casgliad bod angen safleoedd ychwanegol i fodloni'r gofynion am dai, neu y gall y safleoedd a ddyrannwyd beidio â bod yn gadarn, y bydd yr Arolygydd yn gofyn i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol gyflwyno safleoedd amgen ac ystyried yr angen am sesiwn ychwanegol i'r gwrandawriad.

7. Y Weithdrefn yn Sesiynau Gwrandawriad yr Archwiliad

- 7.1 Bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn hysbysebu dyddiad cychwyn sesiynau'r gwrandawriad o leiaf 6 wythnos ymlaen llaw.
- 7.2 Bydd sesiynau'r gwrandawriad yn cychwyn **ddydd Mawrth 2 Gorffennaf 2019 am 9:30am** a byddant yn cael eu cynnal yn Neuadd Pater, Stryd Dimond, Doc Penfro, SA72 6DD fel y nodir ar dudalen flaen y ddogfen hon. Fel arfer, bydd y sesiynau dilynol yn cychwyn am 9:30 a 14:00 gydag egwyl i ginio tua 13:00, a dylent orffen tua 16:30. Fodd bynnag, gall yr amserau cychwyn amrywio, a dylech gadw golwg ar Raglen Sesiynau'r Gwrandawriad. Os yw'n gyfleus, bydd egwyl fer ganol bore a chanol prynhawn. Yn gyffredinol, bydd y gwrandawriadau mewn sesiwn ar ddydd Mawrth i ddydd Iau gyda'r posibilrwydd o rai gwrandawriadau ar fore Gwener. Bydd y dyddiadau ar gyfer sesiynau'r gwrandawriad yn cael eu nodi yn Rhaglen ac Amserlen Ddrafft y Gwrandawriadau, ac mae'n debygol y bydd sesiynau'r gwrandawriad yn cymryd dwy i dair wythnos i'w cwblhau dros gyfnod o ddau fis.
- 7.3 Bydd sesiynau'r gwrandawriad yn canolbwyntio ar gadernid y Cynllun, gan ystyried y profion cadernid sy'n ymwneud â'r gofynion gweithdrefnol a chysondeb, cydlynid ac effeithiolrwydd y Cynllun. Cynhelir sesiwn gwrandawriad ar wahân o'r Archwiliad ar gyfer pob un o'r prif bynciau a glustnodir yn y rhaglen. Fel arfer, bydd y sesiynau ar ffurf trafodaeth anffurfiol o gwmpas y bwrdd lle mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r rhai sy'n dymuno cael eu clywed yn trafod y pwyntiau allweddol a glustnodwyd. Bydd hyn yn gyfle i archwilio'r materion drwy drafodaeth dan arweiniad yr Arolygydd. Gall cyfranogwyr ddod â chynrychiolwyr proffesiynol gyda hwy i siarad ar eu rhan a gallant ofyn cwestiynau am y dystiolaeth, ond ni fydd tystiolaeth yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol, ni fydd unrhyw groesholi na chyflwyniadau ffurfiol. **Nid oes angen i gyfranogwyr gael cynrychiolaeth gyfreithiol.**

- 7.4 Ar ddechrau pob sesiwn bydd yr Arolygydd yn nodi agenda fanwl gyda'r pwyntiau i'w trafod ar bob pwnc. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y 'Materion a'r Pynciau' a glustnodwyd yn yr agenda a'r cwestiynau a ofynnir. Bydd yr Arolygydd yn cychwyn drwy wneud ychydig o sylwadau byr ar y materion i'w trafod, cyn gwahodd cyfranogwyr i gyfrannu at y ddadl. Bydd y sesiwn yn symud ymlaen o dan gyfarwyddyd yr Arolygydd, gan dynnu cyfranogwyr i mewn i'r drafodaeth mewn modd sy'n ei galluogi i gael y wybodaeth angenrheidiol i ddod i gasgliad cadarn ar y materion perthnasol.
- 7.5 Hysbysir y cyfranogwyr drwy e-bost pan fydd unrhyw ddatganiadau pellach a wahoddir gan yr Arolygydd yn cael eu cyhoeddi ar y wefan (cyfeirier at gymal 10 o'r nodiadau hyn). Dylai cyfranogwyr ymgyswrtu â'r rhain ac unrhyw sylwadau sy'n berthnasol i sesiynau penodol o'r gwrandawriad y maent yn rhan ohonynt (hefyd gellir gweld sylwadau ar wefan yr Archwiliad). Cynhelir y gwrandawriadau ar y sail bod pawb sy'n cymryd rhan wedi darllen y dogfennau perthnasol, er y bydd y cyfranogwyr yn gallu cyfeirio at bwyntiau perthnasol a manylu arnynt, yn ôl yr angen.
- 7.6 Bydd yr Arolygydd yn ymdrechu i sicrhau bod sesiynau'r gwrandawriad yn symud ymlaen mewn modd effeithiol ac effeithlon, gan gadw trefn bendant ar y trafodaethau a'r amser a gymerir. Fel rhan o'r broses honno, nod yr Arolygydd fydd cadw i gyn lleied â phosibl y deunydd a gynhyrchir sy'n angenrheidiol i ddod i gasgliadau ar sail gwybodaeth ar y materion, a bydd yn ceisio osgoi ailadrodd cyflwyniad llafar neu drafodaeth nad ydynt yn canolbwyntio ar y dystiolaeth.
- 7.7 Dylai unrhyw un sydd angen cymorth neu gyfleusterau arbennig ar gyfer pobl anabl gysylltu â'r Swyddog Rhaglen ymlaen llaw i alluogi gwneud trefniadau priodol.
- 7.8 Croesewir cymryd rhan yn yr iaith Gymraeg yn y Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad neu yn Sesiynau'r Gwrandawriad. Lle mae un neu fwy o gyfranogwyr yn Sesiynau'r Gwrandawriad wedi nodi eu bod yn ffafrio cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn trefnu cyfleusterau cyfieithu. Er mwyn atal oedi di-angen, bydd y Swyddog Rhaglen yn ceisio ail-gadarnhau dewisiadau iaith y cyfranogwyr cyn i'r Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad a Sesiynau'r Gwrandawriad ddigwydd.

8. Rhaglen y Gwrandawriadau

- 8.1 Mae Sesiynau Gwrandawriad yr Archwiliad yn debygol o barhau hyd at dair wythnos dros gyfnod o ddau i dri mis gyda thoriadau. Mae'r Rhaglen Ddrafft o'r Gwrandawriad sy'n amlygu'r prif bynciau i'w trafod ynghlwm fel Atodiad A. Bydd y rhai sydd wedi gwneud sylwadau yn briodol ac sy'n ymwneud â'r pynciau hyn yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn sesiynau perthnasol.
- 8.2 Gwneir pob ymdrech i gadw at y Rhaglen ond efallai na fydd modd osgoi newidiadau hwyr. Rhoddir blaenoriaeth i gychwyn y ddadl ar bob mater ar

yr amser penodedig ac o bryd i'w gilydd efallai y bydd angen ymestyn y ddatl yn sesiwn y prynhawn. Bydd y Swyddog Rhaglen yn hysbysu'r cyfranogwyr am unrhyw newidiadau hwyr i'r amserlen ond cyfrifoldeb y cyfranogwyr yw sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau a'r rhaglen, yn bennaf drwy edrych ar wefan yr Archwiliad.

9. Paratoi a chyflwyno deunydd pellach

Llyfrgell yr Archwiliad

- 9.1 Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi paratoi rhestr o'r Dogfennau Craidd gan gynnwys pob dogfen sydd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun a'r Sylfaen Dystiolaeth, ac mae pob un ohonynt ar gael i'w gweld/lawrlwytho o lyfrgell gwefan yr Archwiliad yn www.arfordirpenfro.cymru/ldpexamination. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gweld copïau papur o Lyfrgell yr Archwiliad gysylltu â'r Swyddog Rhaglen i drefnu amser sy'n gyfleus i'r ddau. Mae'r Dogfennau Craidd hefyd yn cyfeirio at bolisiau a chanllawiau cenedlaethol perthnasol, papurau cefndir, y CDLI presennol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol, ac unrhyw ddogfennau eraill y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn debygol o gyfeirio atynt.
- 9.2 Dylai cyfranogwyr sicrhau bod unrhyw ddogfennau ychwanegol y maent yn bwriadu cyfeirio atynt yn cael eu hychwanegu at Lyfrgell yr Archwiliad drwy drefnu bod y cyfryw ddogfennau yn cael eu hanfon at y Swyddog Rhaglen (bydd angen un copi electronig a thri copi papur).
- 9.3 Bydd unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig pellach neu ddeunydd arall y bydd yr Arolygydd yn gofyn amdano yn cael eu hychwanegu at yr adran 'Dogfennau'r Archwiliad' yn y llyfrgell adeg eu cyflwyno. Dylai'r cyfranogwyr edrych ar Wefan yr Archwiliad yn gyson am ddiweddiadau.

Cyflwyno datganiadau ysgrifenedig pellach a deunydd arall

- 9.4 Dylai'r sylwadau a wnaed eisoes yn yr ymgynghoriadau Adnau neu Newidiadau Ffocws gynnwys yr holl bwyntiau, dogfennau a thystiolaeth i gadarnhau eu hachos. Felly, ni ddylai'r cyfranogwyr gyflwyno unrhyw ddeunydd pellach yn seiliedig ar eu sylwadau gwreiddiol. Sylwer, er y gall y cyflwynwyr sylwadau fod wedi gwneud sylwadau ar y camau cynharach o broses y Cynllun, dim ond copïau o'r sylwadau a wnaed o'r cam Adnau ymlaen fydd gan yr Arolygydd.
- 9.5 Dylai unrhyw ddatganiadau pellach y bydd yr Arolygydd yn gofyn amdanynt gan y cyflwynwyr sylwadau fynd i'r afael â'r Materion a'r Pynciau a glustnodwyd gan yr Arolygydd a'u cyflwyno **o leiaf bythefnos** cyn sesiwn berthnasol y gwrandawriad. Bydd y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno datganiadau pellach yn cael ei nodi yn y gwahoddiadau ffurfiol i gymryd rhan ac ar ddiwedd y canllawiau hyn.
- 9.6 Yn y bôn, wrth gyflwyno datganiadau pellach, mae angen i'r Arolygydd wybod:

- Pa ran benodol o'r Cynllun nad yw'n gadarn? (polisi/paragraff/tudalen y Cynllun)
 - Pa brawf (profion) cadernid, a nodir ym mharagraff 8.2.1.2 o Lawlyfr y CDLI, y mae'n ei fethu?
 - Pam y mae'n methu?
 - Sut ellir gwneud y Cynllun yn gadarn?
 - Beth yw'r union newid/geiriad y gofynnir amdano?
- 9.7 Bydd yr Arolygydd angen ymateb ysgrifenedig gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i bob un o'r cwestiynau a ofynnir yn y papurau Materion, Pynciau a Chwestiynau, gan nodi pam fod yr Awdurdod o'r farn bod y Cynllun yn gadarn a pham, os yn briodol, y byddai'r newidiadau y mae partïon eraill yn gofyn amdanynt, yn golygu na fyddai'r Cynllun yn gadarn.
- 9.8 Dylai pob cyflwyniad **fod yn gryno, gan osgoi manylion ac ailadrodd diangen**. Nid oes angen dyfynnu gair am air o'r Cynllun nac o ffynonellau eraill o ganllawiau polisi. Serch hynny, mae'n hanfodol bod elfennau sylfaenol yr achosion yn cael eu nodi'n glir ac yn gryno, gan nad y gwrandawiadau yw'r lle i gyflwyno pwyntiau neu dystiolaeth newydd am y tro cyntaf. Dylai datganiadau gan y cyflwynwyr sylwadau ganolbwyntio ar y materion a glustnodwyd gan yr Arolygydd.
- 9.9 Dylai'r cyfranogwyr geisio dod i gytundeb ar faterion ffeithiol ac ar ystadegau cyn i'r gwrandawiadau ddechrau, ac anogir pawb i barhau trafodaethau gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a chyfranogwyr eraill cyn y gwrandawiadau. Gall Datganiadau Tir Cyffredin fod yn ffordd ddefnyddiol o leihau'r materion sy'n destun anghydfod, a dylid eu cyflwyno o fewn yr amserlen a nodir uchod.
- 9.10 Nid oes angen paratoi datganiad pellach os yw pob un o'r pwyntiau a godwyd yn y Materion, Pynciau a Chwestiynau, a'r cwestiynau a restrir ym mharagraff 9.6 uchod, eisoes wedi'u cynnwys yn y sylwadau gwreiddiol, ond byddai o gymorth petai'r cyfranogwyr yn rhoi gwybod i'r Swyddog Rhaglen os nad ydynt yn bwriadu cyflwyno datganiadau pellach.
- 9.11 Dylai cyfranogwyr sy'n dymuno cyflwyno datganiadau ysgrifenedig pellach mewn ymateb i'r Materion a'r Pynciau gofio y bydd angen datganiad ar wahân ar gyfer pob pwnc mewn sesiwn gwrandawriad, a bydd y Swyddog Rhaglen angen un copi electronig a thri copi papur o bob datganiad ar wahân a gyflwynir. Ni ddylai datganiadau fod yn hirach na 3,000 o eiriau yr un a bydd unrhyw ddatganiadau hirfaith neu sy'n cynnwys deunydd na ofynnwyd amdano yn cael eu dychwelyd.
- 9.12 Dylid cyfyngu dystiolaeth dechnegol ategol i atodiadau a dylai fod cysylltiad clir rhwng y dystiolaeth a'r achos. Dylid cyfyngu unrhyw ddeunydd ategol i'r hyn sy'n hanfodol. Nid oes angen unrhyw ddyfyniadau o ddogfennau sydd eisoes yn Llyfrgell yr Archwiliad. Nid oes angen datganiadau cryno. Dylai datganiadau fod ar bapur A4, sydd â dau dwll yn barod i'w ffeilio, a heb eu clymu. Dylid gallu plygu cynlluniau neu ddiagramau i faint A4. Dylid nodi rhif cyfeirnod y cyflwynydd sylwadau ar

bob datganiad (hwn yw'r Rhif ID a nodir ar ohebiaeth oddi wrth y Swyddog Rhaglen).

- 9.13 Mae cyfyngiadau ar allu'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i dderbyn dogfennau mawr a gyflwynir drwy'r e-bost at y Swyddog Rhaglen. Dylid cyflwyno dogfennau electronig dros 10MB eu maint ar CD neu USB drwy'r post neu â llaw. Ni fydd y Swyddog Rhaglen yn gallu argraffu, coladu na rhwymo cyflwyniadau mawr, a dylid cyflwyno copïau papur yn unol â chymalau 9.11 a 9.12 uchod.
- 9.14 Dylai pob cyfranogwr gadw at yr amserlen ar gyfer cyflwyno datganiadau pellach. Mae'n annhebygol y derbynnir cyflwyniadau hwyr a phapurau ychwanegol ar ddiwrnod y sesiwn berthnasol gan y gall hyn amharu ar y broses ac arwain at annhegwch, a gall arwain at ohirio'r gwrandawriad. Os na dderbynnir deunydd erbyn y terfynau amser a nodir, bydd y Swyddog Rhaglen yn cymryd na fydd y cyfranogwr dan sylw yn gwneud unrhyw sylwadau.

10. Y wybodaeth fydd ar gael

- 10.1 Bydd y Swyddog Rhaglen yn cynnal Llyfrgell yr Archwiliad yn Swyddfa'r Rhaglen ac ar-lein ar Wefan yr Archwiliad, a bydd y Llyfrgell yn cynnwys y Dogfennau Craidd gan gynnwys copïau o'r Cynllun a dogfennau cysylltiedig yn ogystal â'r holl sylwadau. Hefyd bydd y Llyfrgell yn cynnwys Dogfennau'r Archwiliad sy'n cynnwys sylwadau pellach, datganiadau, a gohebiaeth gysylltiedig fel y daw i law. Y Swyddog Rhaglen fydd yn goruchwyllo'r Llyfrgell, a bydd y Swyddog yn cynorthwyo unrhyw un sy'n dymuno gweld unrhyw ddogfen, cyn belled ag y rhoddir rhybudd rhesymol ymlaen llaw.
- 10.2 Bydd y Swyddog Rhaglen yn cadw cofnod o bob dogfen a gyflwynir. Bydd Rhestr Llyfrgell yr Archwiliad, Rhaglen Ddrafft gyfredol y Gwrandawriadau a deunydd perthnasol arall ar gyfer pob sesiwn ar gael yn y lleoliad ar y diwrnod. Bydd gwybodaeth berthnasol hefyd yn cael ei chynnwys ar y wefan.

11. Trefniadau ymweliad safle

- 11.1 Fel rhan o'r Archwiliad, bydd yr Arolygydd yn mynd ar daith i ymgyfarwyddo â'r ardal, gan ymweld â lleoliadau angenrheidiol y cyfeirir atynt, ar ei phen ei hun. Os oes rhesymau eithriadol dros ymweld â lleoliad gyda'r Arolygydd, dylai cyfranogwyr drafod hyn gyda'r Swyddog Rhaglen.

12. Cau'r Archwiliad

12.1 Bydd yr Archwiliad yn parhau ar agor hyd nes i'r Arolygydd gyflwyno ei hadroddiad i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, ni fydd yr Arolygydd yn derbyn unrhyw sylwadau neu dystiolaeth bellach ar ôl i sesiynau'r gwrandawriad orffen, oni fydd hi'n gwneud cais penodol. Mae unrhyw ddeunydd hwyr neu ddeunydd na ofynnwyd amdano yn debygol o gael ei ddychwelyd.

13. Cyflwyno Adroddiad yr Arolygydd i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol

13.1 Ar ôl i'r Archwiliad gau, bydd yr Arolygydd yn cyflwyno'r Adroddiad gydag argymhellion rhwymol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Bydd dyddiad cyflwyno'r adroddiad yn dibynnu i raddau helaeth ar gynnwys, maint a hyd yr Archwiliad. Bydd yr Arolygydd yn cadarnhau'r dyddiad y mae'n disgwyl cyflwyno'r adroddiad ar ôl i sesiynau'r gwrandawriad ddod i ben.

DYDDIADAU ALLWEDDOL

**Yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn
cyflwyno'r CDLI i'w Archwilio**

22 Chwefror 2019

Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad

7 Mai 2019

**Dyddiad olaf i gyflwyno datganiadau
ysgrifenedig yn ymateb i'r Materion a'r
Pynciau i'w Harchwilio**

**O leiaf pythefnos cyn
y gwrandawriad
perthnasol**

Cychwyn sesiynau'r Gwrandawriad

2 Gorffennaf 2019

AMSERLEN DDRAFFT SESIWN GWRANDAWIAD

AMSERLEN DDRAFFT SESIWN GWRANDAWIAD AR CDLI APCAP		
Dyddiad	Bore	Prynhawn
WYTHNOS 1		
2 Gorffennaf 2019	Mater 1 - Agor, Paratoi'r Cynllun a Strategaeth y Cynllun	
3 Gorffennaf 2019	Mater 2 - Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol	Mater 3 - Datblygiad Mawr, y Potensial ar gyfer Twf
4 Gorffennaf 2019	Mater 4 - Newid Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy, Ynni Adnewyddadwy a Llifogydd	Mater 5 - Economi Ymwelwyr, Cyflogaeth a Chyfleusterau Cymunedol
WYTHNOS 2		
9 Gorffennaf 2019	Mater 6 - Darpariaeth a Dosbarthiad Tai	
10 Gorffennaf 2019	Mater 7 - Tai Fforddiadwy, Llety Sipsiwn a Theithwyr	
11 Gorffennaf 2019	Mater 8 - Safleoedd a Ddyrannwyd: Polisi 48 (HA3) Polisi 48 (HA4) Polisi 48 (HA5) Polisi 48 (HA6) Polisi 48 (HA10) Polisi 48 (HA11)	
WYTHNOS 3		
I'w gadarnhau		

Bydd pob sesiwn Gwrandawriad yn dechrau am 9:30 y bore a 2:00 y prynhawn bob dydd, gydag egwyl i ginio tua 1.00 y prynhawn, ac yn gorffen tua 4:30 y prynhawn. Dim ond pan fydd yr Arolygydd o'r farn ei bod yn hwylus gwneud hynny y caiff diwrnodau wrth gefn eu defnyddio.

Bydd trafodaethau ar y Fframwaith Monitro yn cael eu cynnal yn ysgrifenedig oni bai bod yr Arolygydd o'r farn ei bod yn briodol cynnal sesiwn gwrandawriad.

Dim ond os yw'r Arolygydd yn ystyried bod angen gwneud hynny y cynhelir sesiynau gwrandawriad i drafod Safleoedd Amgen.

CYFARFOD CYN-GWRANDAWIAD DRAFFT

AGENDA

- 1. Agor a Chyflwyniad**
- 2. Diben y Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad**
- 3. Rôl y Swyddog Rhaglen**
- 4. Cwmpas yr Archwiliad a rôl yr Arolygydd**
- 5. Cwestiynau o ran gweithdrefn i'r Awdurdod**
- 6. Y sylwadau a wnaed ar y CDLI**
- 7. Dulliau o ystyried y sylwadau**
- 8. Y weithdrefn yn Sesiynau Gwrandawriad yr Archwiliad**
- 9. Rhaglen Gwrandawriadau'r Archwiliad gan gynnwys materion i'w trafod**
- 10. Paratoi a chyflwyno deunydd pellach**
- 11. Y wybodaeth fydd ar gael**
- 12. Trefniadau ymweliad safle**
- 13. Cau'r Archwiliad**
- 14. Cyflwyno Adroddiad yr Arolygydd**
- 15. Cwestiynau**
Cau'r Cyfarfod